

Gwybodaeth Undebol

Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill yn eich gweithle

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill yn eich gweithle

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad i aelodau UCAC yn y sefyllfa honno pan fydd aelodau o undebau eraill yn gweithredu'n ddiwydiannol.

Wrth benderfynu p'un ai agor sefydliad addysgol ar adeg o weithredu diwydiannol, mae'n rhaid i Bennaeth y sefydliad ystyried yn ofalus:

- iechyd a diogelwch y disgyblion/myfyrwyr a'r staff e.e. glendid yr adeilad gan gynnwys y toiledau; er y bydd yr adeilad yn lân ar ddiwrnod y streic, ni fydd wedi'i lanhau ar gyfer drannoeth
- yr hyn sy'n bosib i'w ddarparu gyda'r niferoedd staff sydd ar gael i weithio e.e. a fydd modd cynnal gwersi/darlithoedd arferol?

Mewn ysgol, mae gan y Pennaeth yr hawl i agor yr ysgol yn y bore a'i gloi gyda'r nos yn absenoldeb y gofalwr, hyd yn oed mewn sefyllfa o weithredu diwydiannol.

Os yw'r sefydliad ar agor, disgwylir i athrawon/darlithwyr weithio fel arfer a chyflawni eu dyletswyddau arferol.

Nid yw aelod o UCAC i weithredu mewn unrhyw fodd a all gael ei ddehongli'n weithred sy'n tanseilio gweithredu diwydiannol undeb arall. Er enghraifft, ni ddylai athrawon/darlithwyr ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau sy'n *ychwanegol* i'r gwaith arferol - yn enwedig os yw'r dyletswyddau hyn yn rhan o waith arferol person sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.

Os oes picedu y tu allan i'r adeilad, disgwylir i athrawon/darlithwyr groesi'r llinell. Os yw athro/darlithydd yn penderfynu peidio â chroesi'r llinell biced, golyga hyn y bydd yn torri ei ch/gytundeb; yn ogystal â cholli cyflog, fe all arwain at ddisgyblu.

Os oes gweithiwr yn aros i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ar ddiwrnod o weithredu diwydiannol gan undeb arall, mae hawl gan y cyflogwr ofyn am bapur meddyg swyddogol am y diwrnod hwnnw.

Mae'r gyfraith yn gwahardd gweithredu'n ddiwydiannol heb ddilyn trefn benodol sy'n cynnwys cynnal balot o'r aelodau perthnasol.

Cysylltwch â'r Swyddog Maes perthnasol am gyngor pellach, neu ffoniwch prif swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Swyddogion Maes:

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol, ywain@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru

Swyddogion Eraill:

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, rebecca@ucac.cymru

Diweddarwyd: Tachwedd 2019



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru